# Blychau Chwarae Cymunedol

Cerdyn adroddiad

## Disgrifiad

Gweithio gyda sefydliadau/gwirfoddolwyr i gyflwyno blychau storio chwarae mewn mannau cyhoeddus agored sy’n golygu bod gan blant fynediad i rannau rhydd i gyfoethogi eu cyfleoedd i chwarae. Mae’r blychau yn cael eu rheoli gan sefydliadau neu wirfoddolwyr lleol.

## Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
- Strategaeth gofod agored Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

## Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Gwirfoddolwyr lleol
- Cynghorau cymuned
- Tîm Cymorth Chwarae ac Ieuenctid Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Adran yr Amgylchedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

## Adnoddau/galluogwyr

- Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan
- Datblygu papur briffio
- Blychau chwarae
- Rhannau rhydd

## Proses

- Dosbarthu papur briffio ac ymgysylltiad gan grwpiau fynegodd ddiddordeb
- Sicrhau caniatâd ac yswiriant ar gyfer gosod y blychau chwarae
- Hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr
- Canfod ac ailgyflenwi’r stôr adnoddau
- Cefnogaeth barhaus pan mae angen

## Heriau

- Caniatâd i osod y blychau chwarae ar y safle
- Dynodi rolau a chyfrifoldebau – yswiriant, cynnal a chadw, ailgyflenwi'r stôr adnoddau
- Gall newid mewn personél/amgylchiadau sydd ynghlwm â'r prosiect arwain at chwalu'r broses reolaidd o agor y blychau chwarae
- Sicrhau bod rhannau rhydd yn addas, yn ddigonol ac o ansawdd uchel

## Allbwn/deilliannau

- Mae'n cyfoethogi ymhellach y cyfleoedd posibl a gynigir gan ofod ar gyfer chwarae plant
- Mae'n cynnig cyfle i drigolion lleol gyfranogi'n weithredol wrth gefnogi chwarae plant – gan gyfrannu at gydlyniad cymunedol cynyddol
- Mae'n hybu caniatâd plant i chwarae mewn ystod ehangach o fannau cyhoeddus agored trwy gyfleu i bobl bod chwarae'n cael ei groesawu yn yr ardaloedd hyn



Elusen cofrestredig, rhif. 1068926 © Chwarae Cymru

Gorffennaf 2024

# Clwb Gwyliau Teuluoedd yn Gyntaf

Cerdyn adroddiad

## Disgrifiad

Arddull partneriaeth tuag at drosglwyddo cynllun chwarae rhwng y Tîm Datblygu Chwarae, y Gwasanaethau Cymdeithasol a phartneriaid Teuluoedd yn Gyntaf i sicrhau bod anghenion chwarae plant rhwng pedair ac unarddeg oed sydd angen cymorth ychwanegol yn cael eu diwallu. Cynhelir y Clwb yn ystod gwyliau'r ysgol heblaw am y Nadolig.

## Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Y Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae a chanfyddiadau o Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'r awdurdod lleol
- Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru
- Cynllun Corfforaethol a Chynllun Llesiant Cyngor Bro Morgannwg
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

## Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Tîm Datblygu Chwarae'r awdurdod lleol
- Staff chwarae profiadol
- Rheolwr Atal a Phartneriaeth – Y Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol a Llesiant
- Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW)
- Tîm Iechyd ac Anabledd Plant (CHAD)
- Y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
- Y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a'r Gwasanaeth Chwarae
- Gweithgor trawsadrannol yn cynnwys y partneriaid uchod
- Now Education (asiantaeth recriwtio)
- Rheolwr/wraig Cyfleuster Cymunedol
- Rhieni/gofalwyr

## Adnoddau/galluogwyr

- Canolfan Addysg Oedolion
- Hyfforddiant
- Offer
- Cyllid Teuluoedd yn Gyntaf
- Amser yr Uwch-swyddog Datblygu Chwarae (arweinydd y prosiect)

## Proses

- Dynodwyd yr angen gyntaf trwy weithgor/partneriaid Teuluoedd yn Gyntaf ynghylch yr angen am fwy o seibiant ar gyfer teuluoedd plant anabl, i’w drosglwyddo trwy ddarpariaeth chwarae â chymorth
- Dyrannwyd ariannu Teuluoedd yn Gyntaf i’r Tîm Datblygu Chwarae i ariannu swydd yn rhannol i arwain ar Glwb Gwyliau Teuluoedd yn Gyntaf ac i gyllido’r prosiect
- Sicrhawyd cyllid ychwanegol trwy ffynonellau megis Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru i gynorthwyo gyda phrynu adnoddau
- I gychwyn, derbyniwyd atgyfeiriadau oddi wrth y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yna eu hagor i fwy o weithwyr proffesiynol, cyn ehangu eto i gynnwys hunan-atgyfeirio gan rieni/gofalwyr (roedd y broses atgyfeirio i sicrhau capasiti staffio priodol ac y gellir diwallu anghenion) – arweiniodd hyn at alw na ellid ei ddiwallu felly aethpwyd yn ôl at y broses o atgyfeirio trwy’r Gwasanaethau Cymdeithasol
- Crëwyd gweithgor trawsadrannol i gynorthwyo gyda chynllunio a blaenoriaethu
- Cynhaliwyd holiadur rhieni yn ddiweddar i greu darlun cyfredol o’r galw ac anghenion sy’n cael ei ddefnyddio i hysbysu cynllunio a blaenoriaethu adnoddau
- Y Tîm Datblygu Chwarae sy’n trefnu recriwtio a hyfforddi staff, cyflogres, archebu lleoliad, gweinyddu’r cynllun, cysylltu gyda theuluoedd, amserlen, cymorth 1:1/cefnogaeth ‘cyfaill’ a delio gydag anghenion meddygol

## Heriau

- Cynllunio a chynaladwyedd tymor hir – ariennir y prosiect yn flynyddol felly mae’n anodd cwblhau cynllunio tymor hir; rheoli costau bythol gynyddol gyda’r cyllid cyfyngedig sydd ar gael
- Staffio – mwyfwy anodd i recriwtio a chadw staff ar gyfer yr oriau cyfyngedig o waith sydd ar gael
- Hyfforddiant – angen parhaus i hyfforddi staff oherwydd anawsterau cadw staff a diffyg staff sydd ar gael sy’n meddu ar y cymwysterau angenrheidiol (amser a chost adnoddau)
- Diffyg capasiti i ymateb i alw cynyddol – rhestr bythol gynyddol o blant sy’n dymuno mynychu gyda llai fyth o adnoddau – methu cynnig cyfleoedd i bob plentyn (blaenoriaethu’n digwydd ar y cyd gyda’r Gwasanaethau Cymdeithasol)
- Rheoli disgwyliadau – oherwydd nifer cyfyngedig y lleoedd, mae angen parhaus i reoli disgwyliadau/siom y rheini sy’n methu cael mynediad i’r gwasanaeth

## Allbwn/deilliannau

- Plant yn cael mynediad i gyfleoedd chwarae’n ystod gwyliau’r ysgol
- Darperir ar gyfer anghenion cymorth plant sydd ag anghenion ychwanegol, gan sicrhau hyder ymhlith teuluoedd i alluogi i’w plant gael mynediad i chwarae cymunedol
- Rhieni’n datblygu hyder gyda staff yn y lleoliad chwarae
- Teuluoedd yn derbyn cyfleoedd am seibiant, sydd hefyd yn cefnogi gwaith y Gwasanaethau Cymdeithasol a phartneriaid eraill Teuluoedd yn Gyntaf
- Plant yn cynyddu hyder wrth chwarae
- Mwy o gyfleoedd chwarae ar gyfer plant anabl a phlant sydd angen cymorth ychwanegol
- Cyfrannu at elfennau o’r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae sef Materion B (diwallu anghenion amrywiol) ac Ch (chwarae yn y gymuned)

Chwarae Cymru
Play Wales

www.chwarae.cymru

Elusen cofrestredig, rhif. 1068926
© Chwarae Cymru
Hydref 2024

# Gwerthoedd Cytûn

Cerdyn adroddiad

## Disgrifiad

Cyd-gynhyrchu wyth o werthoedd cytûn ar gyfer oedolion sy'n gweithio gyda, neu sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a'u chwarae. Mae'r gwerthoedd hyn yn sail ar gyfer y ffordd yr ydym yn ystyried chwarae, plant a phlentyndod er mwyn darparu cysondeb yn ein hymagwedd tuag at blant ar draws weithlu chwarae Wrecsam.

## Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
- Cynllun Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (2023-28)

## Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Tîm Cymorth Chwarae ac Ieuenctid
- Gweithiwr Datblygu Chwarae
- Meysydd chwarae antur Wrecsam (The Land, Y Fenter, Cwm Gwenfro)
- Tŷ Pawb
- Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Tîm Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd (TAC) Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

## Adnoddau/galluogwyr

- Gweithwyr proffesiynol yn llawn brwdfrydedd am y cysyniad
- Ymgysylltiad gan ystod eang o wasanaethau
- Uchelgais Dinas Diwylliant Wrecsam
- Ariannu Teuluoedd yn Gyntaf
- Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan

## Proses

- Cydgynhyrchu'r gwerthoedd gydag ystod amrywiol o wasanaethau
- Digwyddiad lansio'n arddangos y gwerthoedd
- Trosglwyddo hyfforddiant gyda thîm gwasanaeth-penodol
- Trosglwyddo cwrs hyfforddi'r hyfforddwr er mwyn galluogi trosglwyddo pellach ar draws ein gwasanaethau
- Gwerthusiad parhaus ar effaith mabwysiadu'r gwerthoedd

## Heriau

- Proses tymor hir
- Recriwtio digon o weithwyr proffesiynol i drosglwyddo hyfforddiant ar y gwerthoedd
- Ariannu ar gyfer adnoddau
- Gwerthuso effaith – tracio newidiadau tymor hir

## Allbwn/deilliannau

- Mwy o ymwybyddiaeth o chwarae plant ar draws ystod o feysydd gwasanaeth
- Mwy o ddealltwriaeth bod chwarae'n rhan annatod o blentyndod iach a hapus
- Cefnogaeth oddi wrth uwch-swyddogion ac aelodau trwy'r broses wleidyddol
- Yr ymagwedd tuag at blant yn fwy cyson ar draws feysydd gwasanaeth



Elusen cofrestredig, rhif. 1068926 © Chwarae Cymru

Hydref 2024

# Pecyn Cymorth Teuluoedd Chwareus

Cerdyn adroddiad

## Disgrifiad

Pecyn cymorth wedi ei ddylunio i helpu teuluoedd i gyfrifo faint o amser, lle a chaniatâd sydd gan eu plant i chwarae. Mae'r pecyn cymorth yn darparu awgrymiadau defnyddiol ar sut i annog mwy o enydau chwareus yn eu bywyd bob dydd a lleihau'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu.

## Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Erthygl 31 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
- Cefnogi teuluoedd sy'n wynebu rhwystrau
- Mae cynyddu amser, lle a chaniatâd i chwarae'n flaenoriaeth ar draws Wrecsam
- Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

## Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Tîm Cymorth Chwarae ac Ieuenctid Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Gweithiwr Datblygu Chwarae
- Tîm Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd (TAC)
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam

## Adnoddau/galluogwyr

- Defnyddiwyd dealltwriaeth o adborth o Brosiect Cynhwysiant y tîm chwarae
- Cefnogaeth sefydliadau eraill trwy adborth ar faterion oedd yn codi ar gyfer rhieni a theuluoedd
- Ariannu Teuluoedd yn Gyntaf
- Gwefan *Plentyndod Chwareus*

## Proses

- Defnyddiwyd gwybodaeth y tîm am fuddiannau chwarae
- Datblygwyd a rhannwyd drafft o becyn cymorth gyda darpar-ddefnyddwyr ar gyfer ymgynghori
- Cadarnhawyd y dyluniad a'r pecyn cymorth
- Defnyddiwyd y pecyn cymorth gyda theuluoedd yn ystod ymweliadau cartref fel rhan o Brosiect Cynhwysiant y tîm chwarae
- Defnyddiwyd y pecyn cymorth yn ystod sesiynau taro i mewn magu plant yn chwareus
- Hyfforddi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd ar sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth

## Heriau

- Cael rhieni i ymrwymo i hyd y cwrs
- Newid mewn agweddau ynghylch gweithwyr proffesiynol yn dod ar ymweliadau cartref
- Capasiti'r tîm i ymgymryd â nifer o achosion

## Allbwn/deilliannau

- Cynorthwyo rhieni i deimlo'n fwy hyderus i adael i'w plant fynd allan i chwarae
- Cefnogi rhieni i fod yn fwy creadigol a chwareus yn eu bywydau bob dydd
- Cynyddu cyfleoedd chwarae ar gyfer plant y tu hwnt i ddarpariaeth chwarae wedi ei staffio
- Cynnig cefnogaeth a syniadau i deuluoedd gyda phlant anabl/plant ag anghenion ychwanegol
- Cefnogi gweithwyr proffesiynol i gael gwell dealltwriaeth o chwarae



Elusen cofrestredig, rhif. 1068926 © Chwarae Cymru

Hydref 2024

# Podiau Gweithgarwch Chwarae

Cerdyn adroddiad

## Disgrifiad

Mae'r Pod Gweithgarwch yn rhaglen chwarae a ddyluniwyd ar gyfer ysgolion cynradd. Darperir cynwysyddion masnachol i ysgolion yn llawn adnoddau ailgylchadwy a rhoddir hyfforddiant i athrawon ar sut i ddefnyddio'r Pod Gweithgarwch ar gyfer chwarae.

## Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
- Cynllun Pen-y-bont ar Ogwr Actif
- Chwaraeon Cymru – Y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol

## Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Chwarae Cymru
- Bristol Scrapstore
- Ysgolion cynradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr – arweinyddion lles/y blynyddoedd cynnar
- Cwmni cynwysyddion masnachol
- Tîm Datblygu Pobl Ifanc Actif (AYPD)

## Adnoddau/galluogwyr

- Cynwysyddion masnachol
- Rhannau rhydd
- Pecyn hyfforddiant podiau gweithgarwch
- 'Poddley' fel adnodd i annog ysgolion oedd ofn risg gan i ysgolion benderfynu ei fod yn 'fwy diogel'

## Proses

- Ymchwil i bodiau chwarae / gweithgarwch – modelau arfer da
- Ymchwilio buddiannau chwarae a chwarae bywiog
- Cyfarfodydd grŵp ffocws gyda staff lefel uwch-arweinyddiaeth ysgolion cynradd – ymgynghoriad i ganfod os oedd angen ac os oedd hwn yn brosiect dichonol
- Chwilio am gyfleoedd cyllido i ariannu'r prosiect
- Datblygu nodau a deilliannau ar gyfer y prosiect
- Ymchwilio i bartneriaid perthnasol i gefnogi ac ychwanegu gwerth i'r prosiect
- Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer y prosiect
- Creu perthnasau gydag ysgolion cynradd
- Datblygu adnoddau i gefnogi'r prosiect
- Datblygu dulliau a mesurau effaith

- Datblygu deunyddiau hyrwyddo a marchnata
- Cynnal peilot o'r rhaglen – trosglwyddo hyfforddiant ac adnoddau
- Adolygu a gwerthuso'r peilot ac yna ei addasu i'w gyflwyno ar draws Pen-y-bont ar Ogwr
- Adolygu, gwerthuso ac addasu'r prosiect yn barhaus ble fo angen

## Heriau

- Ysgolion yn ofni risg ac yn amharod i dderbyn y prosiect
- Cyn ac ar ôl COVID-19 – diffyg lleoliadau'n darparu rhannau rhydd i'r prosiect gael ei drosglwyddo
- COVID-19 – ni allai ysgolion drosglwyddo'r rhaglen oherwydd y cyfnodau clo a gweithredu mewn 'swigod' wedi dychwelyd i'r ysgol
- Mynediad i safleoedd i ddanfon cynwysyddion masnachol, roedd rhaid cael hyd i storfeydd gwahanol ar gyfer ysgolion gydag iardiau llai o faint a mynedfeydd anodd
- Cofnodi gwir effaith – rhoddwyd tro ar ddefnyddio amrywiol ddulliau ond roedd yn anodd mesur unrhyw beth heblaw am ddefnydd ac arsylwi datblygiad sgiliau
- Golygodd cyfathrebu rhwng ysgolion a'r gwasanaeth bod cynnydd yn araf ar adegau
- Cred/cefnogaeth ysgol gyfan
- Newidiadau staff wedi i'r hyfforddiant gael ei drosglwyddo
- Amserlennu hyfforddiant o amgylch ymrwymiadau addysgu a staff cymorth/goruchwylwyr amser cinio – anodd pennu amser i weddu i'r ddau grŵp

## Allbwn/deilliannau

- Ysgolion yn defnyddio'r pod a'r rhannau rhydd yn ystod y cwricwlwm ac yn ystod gweithgareddau allgwricwlar
- Arsylwadau gan staff allweddol ynghylch datblygiad sgiliau, er enghraifft cyfathrebu, cymdeithasol, creadigol a phersonol
- Cynnydd mewn lefelau gweithgarwch corfforol
- Gwahanol grwpiau oedran a rhywiau'n chwarae gyda'i gilydd
- Ysgolion yn datblygu a gwreiddio polisïau chwarae
- Staff wedi'u hyfforddi i hwyluso sesiynau i annog plant i chwarae'n rhydd
- Agwedd ysgol gyfan
- Plant yn setlo'n well ac yn talu mwy o sylw yn ystod gwersi cwricwlwm ar ôl amser cinio ac amser chwarae
- Rhad – mae'r costau dilynol wedi cychwyn y prosiect hwn yn isel iawn trwy chwilio am rannau rhydd yn y gymuned a gyda chefnogaeth Tîm Datblygu Pobl Ifanc Actif (AYPD)
- Dim costau i blant a theuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd



Elusen cofrestredig, rhif. 1068926 © Chwarae Cymru

# Prosiect peilot Aros a Chwarae

Cerdyn adroddiad

## Disgrifiad

Anogir plant a theuluoedd i aros ar ôl ysgol i chwarae ar dir ysgolion ym Merthyr Tudful. Caiff y sesiynau eu cefnogi i ddechrau gan y swyddogion Ysgolion Bro a Swyddogion Ymgysylltu/Cyswllt Teuluoedd.

## Symbylwyr ac anogwyr polisi

- Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
- Argymhellion gan Asesiadau Digonolrwydd Chwarae yr awdurdod lleol
- Defnyddio ariannu Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan i gynorthwyo gyda phrynu offer
- Canllawiau Ysgolion Bro

## Symbylwyr ac anogwyr pobl

- Tîm Datblygu Chwarae yr awdurdod lleol
- Rheolwr Ysgolion Bro brwdfrydig
- Swyddogion Ysgolion Bro profiadol
- Penaethiaid a staff ysgolion cefnogol
- Chwarae Cymru
- Swyddogion ymgysylltu a chyswllt teuluoedd (mewn ysgolion)

## Adnoddau/galluogwyr

- Amser swyddog (Chwarae Cymru ac Ysgolion Bro)
- Darparu offer a lle i'w storio
- Cynyddwyd parodrwydd penaethiaid i gymryd rhan o ganlyniad i gydnabod y diffyg cyfleoedd i chwarae'n ystod y pandemig COVID-19
- Mae rhieni'n chwilio am fwy o gyfleoedd i blant chwarae'r tu allan

## Proses

- Cytuno ar y model gyda'r ysgol
- Cytuno ar rolau a chyfrifoldebau
- Peilot chwe-wythnos o hyd gyda monitro parhaus
- Cynhyrchu dadansoddiad opsiynau ar gyfer cynnal y gweithgaredd ar lefel ysgol

## Heriau

- Angen iddo weithredu a chael ei roi ar waith ar sail ysgol-i-ysgol unigol
- Efallai y caiff chwarae ei ystyried fel rhywbeth sy'n digwydd ar ddiwrnod neu amser penodol

## Allbynnau/canlyniadau

- Ymateb i Gynllun Gweithredu Digonolrwydd Chwarae
- Cefnogi canlyniadau Ysgolion Bro
- Cefnogi ymgysylltiad teuluoedd
- Mae rhieni'n croesawu cyfleoedd i'w plant chwarae a chymdeithasu gyda rhieni eraill
- Mwy o blant yn chwarae pan ddaw'r diwrnod ysgol i ben
- Defnydd da o ofod cymunedol
- Adolygu'r pecyn cymorth – *Defnyddio tiroedd ysgol ar gyfer chwarae'r tu allan i oriau addysgu*

Chwarae Cymru Play Wales

www.chwarae.cymru

Elusen cofrestredig, rhif. 1068926 © Chwarae Cymru Hydref 2024

# Sesiynau Teuluol Chwarae yn y Parc

Cerdyn adroddiad

## Disgrifiad

Sesiynau Chwarae yn y Parc ar draws saith safle yn y fwrdeistref sy'n defnyddio mannau gwyrdd diogel ble gall plant a'u teuluoedd gymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog, atyniadol. Mynychodd dros 2,500 o gyfranogwyr sesiynau Chwarae yn y Parc.

## Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Asesiad Digonolrwydd Chwarae'r awdurdod lleol
- Cynllun strategol y blynyddoedd cynnar
- Darpariaeth chwarae dros y gwyliau

## Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Swyddog Digonolrwydd Chwarae
- Y blynyddoedd cynnar
- Yr adran parciau
- Yr heddlu/gwasanaeth tân
- Chwaraeon a hamdden

## Adnoddau/galluogwyr

- Mannau gwyrdd mwy diogel
- Staff y blynyddoedd cynnar
- Pebyll mawr (er mwyn caniatáu i'r sesiynau gael eu rhedeg mewn tywydd gwael)
- Rhannau rhydd
- Offer chwarae aflêr
- Celf a chrefft
- Darparwyr mewnol/allanol
- Darpariaeth chwarae dros y gwyliau ac ariannu'r blynyddoedd cynnar

## Proses

- Grŵp llywio Chwarae yn y Parc (Swyddog Digonolrwydd Chwarae, blynyddoedd cynnar)
- Archebu cyfleusterau trwy'r adran parciau
- Archebodd y Swyddog Digonolrwydd Chwarae bartneriaid allweddol i gynorthwyo gyda'r trosglwyddo (er enghraifft, y gwasanaeth tân, yr heddlu a chefn gwlad)
- Hwylusodd staff blynyddoedd cynnar weithgareddau megis, chwarae aflêr, rhannau rhydd a chrefftau
- Mae'r holl weithgareddau'n rhai rhad er mwyn rhoi syniadau i deuluoedd am bethau y gallant eu gwneud gartref hefyd.

| Heriau |
| --- |
| • Oherwydd y tywydd, gohiriwyd rhai sesiynau am resymau diogelwch<br>• Mynediad i rai o'r parciau<br>• Staffio |
| **Allbwn/deilliannau** |
| • Darparu cyfleoedd chwarae mewn ardaloedd difreintiedig<br>• Rhoi syniadau i deuluoedd am weithgareddau chwarae rhad y gallant eu gwneud gartref<br>• Hybu gwerth chwarae a'r adran chwarae<br>• Dod a gwahanol randdeiliaid ynghyd i hybu a throsglwyddo chwarae |

Chwarae Cymru
Play Wales

www.chwarae.cymru

Elusen cofrestredig, rhif. 1068926 © Chwarae Cymru

Hydref 2024

# Toddle Waddles

Cerdyn adroddiad

## Disgrifiad

Mae Toddle Waddles yn rhaglen pedair wythnos o hyd sy'n cynnwys hwyl corfforol ar gyfer y rheini sy'n cymryd eu camau cyntaf i weithgarwch corfforol. Mae'r rhaglen ar gyfer plant deunaw mis i dair blwydd oed i chwarae a chael hwyl tra'n archwilio gweithgareddau ac adnoddau gyda'u rhieni/gofalwyr.

## Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
- Cynllun corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Gweledigaeth Chwaraeon Cymru

## Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Staff Datblygu Pobl Ifanc Actif (AYPD)
- Halo Leisure
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Blynyddoedd Cynnar Cymru

## Adnoddau/galluogwyr

- Offer
- Cynllun sesiwn
- Asesiad risg
- Partneriaeth
- Lleoliad ar gyfer trosglwyddo'r rhaglen
- Marchnata a deunydd hyrwyddo

## Proses

- Ymchwilio rhaglenni tebyg – modelau arfer da
- Ymchwilio i fuddiannau 'toddle waddle' ar gyfer plant deunaw mis i dair oed
- Chwilio am gyfleoedd cyllido i ariannu'r prosiect
- Datblygu nodau a deilliannau'r prosiect
- Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer y prosiect
- Cwblhau asesiadau risg ar gyfer y rhaglen
- Datblygu cynlluniau sesiwn

- Datblygu adnoddau i gefnogi'r prosiect
- Datblygu dulliau a mesurau effaith
- Datblygu deunyddiau hyrwyddo a marchnata
- Adolygu a gwerthuso'r rhaglen, yr hyn sy'n gweithio'n dda a newidiadau i'w gwneud ar gyfer y rhaglen nesaf

## Heriau

- Argaeledd lleoliadau
- Argaeledd hyfforddwyr
- Amseru sesiynau – bu rhaid i rai rhieni adael yn gynnar er mwyn cyrraedd yr ysgol i godi brodyr a chwiorydd hŷn
- Rhai plant ddim yn cymryd rhan lawn yn y rhaglen ac eisiau i'w rhieni eu codi
- Cofnodi effaith gywir y sgiliau a ddatblygwyd

## Allbwn/deilliannau

- Darparu sesiynau i blant gael hwyl tra'n datblygu sgiliau corfforol sylfaenol mewn amgylchedd chwarae rhydd
- Annog ymgysylltiad rhwng y plant a rhiant/gofalwr
- Annog cyfathrebu rhwng teuluoedd wrth chwarae

Chwarae Cymru
Play Wales

www.chwarae.cymru

Elusen cofrestredig, rhif. 1068926 © Chwarae Cymru Hydref 2024